OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 935 (Cy.121)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) (Dirymu) 2012

Gwnaed - - - - 23 Mawrth 2012
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 27 Mawrth 2012
Yn dod i rym - - 18 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 108(2)(b)(iii), (5), (6), (9) ac (11) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) (Dirymu) 2012 a daw i rym ar 18 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) 2011(**3**) wedi ei ddirymu.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

23 Mawrth 2012

(**1**) 2002 p. 32. Diwygiwyd is-adran (2) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(a) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Diwygiwyd is-adran (6) o adran 108 gan O.S. 2010/1158 ac is-adrannau (2), (6) ac (11) gan baragraffau 11 i 13 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2011/1947 (Cy.213).